

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 11eg Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm

Councillors Present

County Councillor Alistair Neill, (Chairman)
County Councillor Rachel Buckler, (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, John Crook, Meirion Howells, Paul Pavia and Peter Strong

Also in attendance County Councillors: Ben Callard, Cabinet Member for Resources, Angela Sandles, Cabinet Member for Equalities and Engagement, Jane Lucas, and Laura Wright

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Nia Roberts, Swyddog yr Iaith Gymraeg
Pennie Walker, Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg

APOLOGIES: County Councillors Jill Bond and Catherine Fookes

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim

2. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) Strategaeth Ariannol - Darparu adborth ffurfiol cyn y Cyngor ar 18fed Gorffennaf 2024 (Strategaeth i ddilyn ar ôl y cyfnod cyn-etholiadol).

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Ben Callard yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Peter Davies a Jonathan Davies.

- Holwyd am y gwahaniaeth rhwng y strategaeth ariannol tymor canolig a'r cynllun ariannol tymor canolig. Yr esboniad a roddwyd oedd bod y strategaeth yn nodi'r weledigaeth ariannol, cyd-destun a fframwaith hirdymor ar gyfer y Cyngor, tra bod y cynllun yn ddogfen fwy manwl a gaiff ei diweddarau sy'n sail i'r broses o osod y gyllideb flynyddol.
- Awgrymodd un Aelod y teimlwyd fod gan yr adroddiad arlliw gwleidyddol, yn deillio o beth o'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddiwyd ac os oedd hynny yn fuddiol i ddogfen gan y Cyngor. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod hon yn ddogfen wleidyddol a bod yr enghreifftiau a roddwyd gan yr aelod o awgrymiadau gwleidyddol posibl yn ddatganiadau ffeithiol gywir, er enghraifft, y cyfeiriad at ostyngiadau mewn cyllid i lywodraeth leol dros y 14 mlynedd ddiwethaf.
- Gofynnwyd cwestiwn beth oedd y prif heriau a risgiau i gyllid y Cyngor yn y pum mlynedd nesaf. Cafodd y rhain eu crynhoi ac roeddent yn cynnwys ansicrwydd cyllid Llywodraeth Cymru, effaith COVID-19 a Brexit, y cynnydd mewn galw a chost gwasanaethau gofal cymdeithasol a digartrefedd, yr angen i fuddsoddi mewn galluoedd digidol a data a chyflenwi rhaglenni arbedion a thrawsnewid. Gofynnodd y Cadeirydd

pam nad oedd yr adroddiad yn sôn am brif achos yr heriau ariannol i'r Cyngor sef mai Cyngor Sir Fynwy sy'n derbyn y setliad ariannol isaf gan Lywodraeth Cymru.

- Gofynnodd aelod sut y byddai'r Cyngor yn cyfarch y diffyg a ragwelir yn y gyllideb o £34.7 miliwn dros y tymor canolig. Atebodd yr Aelod Cabinet a swyddogion y byddai'r Cyngor yn datblygu rhaglen o newid a gwella fydd â ffocws ar bedwar maes allweddol: rheoli galw, ailddylunio gwasanaeth, cynhyrchu incwm, ac effeithiolrwydd a chynhyrchiant. Seilir y rhaglen ar y strategaeth ariannol a'r cynllun ariannol tymor canolig a bydd yn cynnwys ymgynghoriad ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. Gofynnodd y Cadeirydd sut y gallai preswylwyr fod yn hyderus y byddai rhaglen y dyfodol yn sicrhau arbedion yn gyfwerth â £34.7 miliwn, pan fod y Cyngor wedi gorwario'n sylweddol ar ei wasanaethau creiddiol gofal cymdeithasol dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.
- Mae'r strategaeth yn amlygu'r angen am 'newid radical' i fodel gweithredu y cyngor a'i wasanaethau (y rhoddir y manylion yn y cynlluniau arfaethedig), ond byddai'n ddefnyddiol i ni esbonio o leiaf yn eang beth y gallai hyn ei olygu, gan fod y strategaeth yn nodi'r ddibyniaeth ar 'newid radical' i reoli her ariannol y diffyg o £34.7 miliwn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y 'newid radical' hwn yn cyfeirio at y rhaglen newid a drafodwyd eisoes a'r gwelliannau sydd eu hangen. Gofynnwyd cwestiynau pellach am sut y byddai gostwng costau ar y raddfa hon a symud i fwy o wasanaethau ar-lein yn realistig yn 'gwella' gwasanaethau. Cytunodd yr Aelod Cabinet y gall hyn fod angen mwy o eglurhad.
- Gofynnodd aelod os a sut y mae'r sefyllfaoedd galw yn y strategaeth ariannol yn seiliedig ar y data a'r rhagolygon diweddaraf..
- Gofynnodd aelod arall os ydym wedi cymharu gyda chynghorau eraill ac os oeddem mewn sefyllfa wahanol i weddill y wlad.
- Gofynnodd aelod beth yw'r tybiaethau tu ôl i fodelu'r Dreth Gyngor yn y strategaeth ariannol.
- Codwyd y bartneriaeth caffael gydag 'Atebion' Caerdydd, y cwestiwn oedd os yw 3 blynedd o waith drwy'r bartneriaeth wedi galluogi'r Cyngor i wella ei fodelu a chynllunio ariannol. Awgrymodd yr aelod, os mai'r elfen allweddol oedd sicrhau fod data ariannol yn aeddfed a chynhwysfawr, a oeddem yn fodlon ein bod yn casglu'r data cywir i roi gwybodaeth gynnar i ni ac a oedd yr Aelod Cabinet yn teimlo fod y data a gynhyrchwyd yn ddigon cadarn i wneud y tybiaethau cyllideb gorau a phenderfyniadau mwy gwybodus.
- Holodd aelod am y sefyllfaoedd ariannol a amlinellir yn Ffigur 5 ar dudalen 20, gan ofyn o gofio naratif a chyd-destun yr adroddiad, pam y teimlid y byddai Sefyllfa 1 yn fwy tebygol na Sefyllfa 2.
- Gofynnodd aelod beth fyddai mwy o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial a dadansoddi data fel y nodir yn y strategaeth yn ei olygu mewn gwirionedd mewn termau strategol ar gyfer yr awdurdod.
- Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod yn glir am yr hyn a gynnigir a'r datrysiadau i sicrhau y gall preswylwyr ddeall y cynllun a chefnogi ei gyflenwi, o gofio am faint yr her ariannol.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at astudiaeth Dadansoddiad Cyllid Llywodraeth Leol Cymru a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd yn Ch3 2023 oedd yn rhagweld diffyg cyllidebol o

£744m ledled Cymru erbyn 2027-2028. Yn seiliedig ar hynny, ymddengys fod y rhagamcan o ddiffyg Sir Fynwy yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Soniodd am ei bryderon am y sefyllfa gyllidol ac ar gyfer adrannau heb gyllidebau wedi eu diogelu, ac awgrymodd y gallai hynny arwain at ostyngiad mewn cyllid canolog. Cadarnhaodd swyddogion fod Dadansoddiad Cyllidol diweddaraf Cymru wedi rhoi ystyriaeth i amrywiaeth o sefyllfaoedd a bod hynny wedi arwain at dybiaeth achos sylfaen ar gyfer cyllid llywodraeth leol yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf, gan nodi fod hyn yn sail i dybiaeth modelu y Cyngor am gyllid creiddiol.

- Dywedodd y Cadeirydd hefyd o gofio na fyddem pan oeddem yn cynnal ein modelu ariannol bum mlynedd yn ôl wedi rhagweld pandemig, yr ymosodiad ar Wcráin a'r sioc ynni dilynol a chwyddiant uchel, a bod angen ystyried i ba raddau y mae gennym gyfle am hyblygrwydd yn ein cynllunio ariannol ar gyfer effeithiau mawr annisgwyl. Yng nghyswllt hyn, awgrymodd bod defnydd y strategaeth ariannol o'n derbyniadau arian parod a chyfalaf yn gonsyrn, yn neilltuoel yn nhermau delio gyda'r heriau gofal cymdeithasol.
- Dywedodd aelod mai hon oedd y strategaeth gyntaf o'i bath a'i bod yn galonogol fod y cynllun yn cael ei adolygu bob 6 mis a gofynnodd aelod os y byddai'r broses craffu yn rhan o'r ymgynghoriad gyda chynghorwyr ar y cynllun ariannol.
- Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud ffigurau 2 a 3 ychydig yn haws eu darllen o fewn y ddogfen.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion oedd yn bresennol i'r holl gwestiynau a godwyd, y gellir eu gweld ar y ffrwd byw a thrawsysgrif y cyfarfod. Daeth y Pwyllgor i'w benderfyniadau megis isod.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu hamser a'u hymatebion i gwestiynau gan y Pwyllgor yn deillio o'r drafodaeth o'r Strategaeth Ariannol. Cydnabu fod hwn yn gyfnod heriol tu hwnt i edrych i'r dyfodol, mae'n dasg ddiflas a diolchodd hefyd iddynt am eu hymdrechion yn llunio'r adroddiad sy'n nodi'n glir y rhesymau dros yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, ac yn ymgeisio esbonio'r strategaeth ariannol mewn ffordd ddiddorol i breswylwyr. Tanlinellodd fod y cwestiynau a godwyd yn y Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg yn bwysig gan eu bod yn codi materion o gonsyrn a phroblemau pwysig gyda'r nod o gryfhau'r strategaeth a'r adroddiad. Cafodd yr adroddiad ei gynnig a byddai'r pwyntiau dilynol fel crynodeb yn cael ei osod fel adborth y Pwyllgor ar yr adroddiad:

- Bod y Pwyllgor yn cydnabod fod hwn yn gyfnod anodd i unrhyw Awdurdod Lleol ac mae'n gwerthfawrogi'r gwaith o lunio'r adroddiad. Bu trafodaeth ar y prif heriau a'r risgiau ar gyfer cyllid y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf a theimlwyd ei bod yn bwysig esbonio'n glir i'r cyhoedd beth oedd y dull gweithredu a gynigir gan y Cyngor.
- Oherwydd anhawster darogan bum mlynedd i'r dyfodol, mae angen hyblygrwydd yn ein cynllunio ariannol ac mae sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn gonsyrn i rai aelodau.
- Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol casglu data cadarn i roi gwybodaeth gynnar i ni er mwyn gwneud y tybiaethau gorau ar y gyllideb a phenderfyniadau gwybodus.

3. Strategaeth Ddigidol a Data - Craffu cyn penderfynu cyn y Cabinet ar 17eg Gorffennaf 2024.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Ben Callard ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Peter Davies, James Vale a Richard Jones.

- Holodd Aelod sut mae'r strategaeth ddigidol yn alinio gyda'r strategaeth ariannol a strategaethau galluogi eraill. Yr esboniad a roddwyd oedd bod y strategaeth ddigidol yn cefnogi'r strategaeth ariannol drwy alluogi defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau, data a thechnoleg a drwy greu cyfleoedd newydd ar gyfer cynhyrchu incwm a thrawsnewid gwasanaethau. Dywedwyd ei bod hefyd yn alinio gyda strategaethau galluogi eraill drwy roi'r offer, sgiliau a diwylliant i sicrhau deilliannau gwell i'r sefydliad ac i'r gymuned.
- Gofynnwyd cwestiynau hefyd am sut mae'r strategaeth ddigidol yn cyfarch y bwch digidol ac yn sicrhau cynhwysiant digidol i'r holl breswylwyr a staff. Gofynnwyd cwestiwn pellach am ba anawsterau a ragwelir mewn annog y gweithlu i groesawu technolegau newydd a phrosesau a gaiff eu gyrru gan ddata. Ystyriwyd bod hyfforddiant a datblygu datrysiadau digidol rhwydd eu defnyddio a hygyrch yn allweddol i gyflawni hyn.
- Bu trafodaeth am sut y bydd y strategaeth ddigidol yn mesur a gwerthuso ei heffaith a'i llwyddiant, yn ogystal â defnyddio data i lywio cynllunio a chyflenwi gwasanaeth.
- Gofynnodd aelodau sut mae'r strategaeth yn cefnogi cydweithio ac integreiddio gwasanaeth gydag awdurdodau lleol eraill a phartneriaid, yn arbennig o ran i ba raddau yr ydym yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill, er mwyn sicrhau fod gennym seilwaith ddigidol gyffredin pe byddem yn ystyried gwasanaethau wedi eu hintegreiddio yn y dyfodol.
- Gofynnwyd cwestiynau hefyd am sut mae'r strategaeth ddigidol yn meithrin diwylliant data a llythrennedd data ymysg staff, partneriaid a phreswylwyr.
- Gofynnwyd cwestiwn arall am sut y bydd y strategaeth yn sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, gan roi ystyriaeth i anghenion a disgwyliadau preswylwyr.
- Awgrymodd aelod bod angen gofal wrth wneud tybiaethau am p'un ai yw pobl hŷn yn medru defnyddio llwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol ac yn gwneud hynny.
- Gofynnodd aelod hefyd os yw'r Aseiad Effaith Integredig yn cynnwys ynysigrwydd oherwydd y cynnydd yn y defnydd o dechnoleg.
- Cyfeiriwyd at y cyflwyniad o'r Strategaeth Ariannol yn yr eitem agenda flaenorol a drafododd ddefnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial a dadansoddeg data, gofynnodd aelod os byddai'r Cyngor yn buddsoddi yn y setiau sgiliau hynny ac os oes ganddo'r gallu ariannol i wneud hynny ac os y byddai cwmpas ar gyfer benthyca ychwanegol os oes angen.
- Soniodd aelod arall nad yw preswylwyr yn credu fod ap Fy Sir Fynwy yn rhwydd ei ddefnyddio. Hefyd, os yw'r ap yn cynnwys data gwarchoddedig preswlydd, a ydym yn defnyddio'r data yma i gysylltu â nhw am ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth, gan fod preswylwyr yn aml yn gofyn sut maent i fod i wybod am ymgynghoriadau sydd ar y gweill, os nad ydynt yn rhagweithol wrth geisio'r wybodaeth. Mae hyn yn ymddangos fel cyfle a gollir i ymgynghori gyda phreswylwyr.

- Gofynnwyd cwestiwn am sut i sicrhau fod y data a ddefnyddir gan swyddogion yn gyfredol.

Atebodd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr holl gwestiynau a chynigiodd y Pwyllgor yr adroddiad a'i argymhellion, gan lunio'r casgliadau canlynol.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i swyddogion a'r Aelod Cabinet am ddod â'r Strategaeth Ddigidol i'r Pwyllgor oedd yn cefnogi ei gyfeiriad a hoffai dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mae'n glir o'r adroddiad fod hyn yn fwy na dim ond y Cyngor yn casglu data ond hefyd am ei gwneud yn haws i breswylwyr gael mynediad i'n gwasanaethau. Os daw dulliau mynediad digidol yn rhwyddach, rhagwelwn y gall y galw amdanynt gynyddu, felly mae angen modelu hyn i sicrhau ein bod wedi rhoi ystyriaeth i gynnydd mewn galw a bod adnoddau digonol yn yr hybiau cymunedol i gyflawni hyn.
- Fel cynghorwyr, mae gennym rôl i'w chwarae wrth bontio'r bwloch rhwng y Cyngor a phreswylwyr a gall hyn gynnwys esboniad a chymorth ond mae cyfeiriad at ymgysylltu cwsmeriaid yn ein trafodaethau a mae hynny'n galonogol.
- Mae aelodau hefyd wedi dweud y byddai'n fuddiol iddynt gael mwy o hyfforddiant ar lwyfannau digidol, ar ôl bod yn eu swyddi ers peth amser, felly caiff y cais ei drosglwyddo am fwy o hyfforddiant i aelodau ar lwyfannau digidol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd. (Gweithredu: Tîm Craffu)

4. Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24 - Craffu perfformiad y Cyngor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Angela Sandles a Pennie Walker ac atebwyd cwestiynau aelodau gyda Nia Roberts.

- Gofynnodd aelodau beth oedd prif lwyddiannau'r Cyngor wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod 2023-24, a chlywsant fod derbyn gwobr Cyflogwr y Flwyddyn, rhaglen estynedig o gyrsiau Cymraeg ar gyfer staff ac aelodau a mwy o siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan cyswllt, a defnydd cyfeiriadau e-bost dwyieithog a chynghorion Cymraeg yn y cylchlythyr staff yn llwyddiannau allweddol a fedrai arddangos ymroddiad y Cyngor.
- Bu trafodaeth ar y prif heriau a risgiau i'r Cyngor wrth gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg, yn cynnwys yr oedi wrth gaffael system teleffoneg newydd, yr angen i adolygu'r broses gyfieithu, yr angen i fonitro sgiliau Cymraeg a hyfforddiant staff a'r angen i ymateb i unrhyw gwynion gan y cyhoedd neu Gomisiynydd y Gymraeg.
- Gofynnodd aelodau sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r ddarpariaeth Gymraeg a'r perfformiad yn y dyfodol, a rhoddodd swyddogion restr o awgrymiadau fydd yn ffurfio rhan o gynllun gweithredu yn y dyfodol.
- Roedd yr ymholiadau'n cynnwys faint o aelodau staff oedd wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg yn ystod 2023-2024 ac os oedd y nifer yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd yr hyblygrwydd ac opsiynau ychwanegol i ddysgu Cymraeg.
- Gofynnwyd cwestiynau am gyrsiau, yr oriau angenrheidiol, gwahanol lefelau gallu, y cyfraddau defnydd a cwblhau, y nifer o staff yn symud ymlaen rhwng lefel mynediad a

chanolradd i lefel uwch, a sut yr ymgysylltir ac y rhoddir cymhelliant i staff ddilyn y cyrsiau. Awgrymwyd y gallai rhai astudiaethau achos ddangos yn well beth yw'r gwerth ychwanegol i rôl unigolyn.

- Holodd y Cadeirydd, o gofio nad yw 83% o breswylwyr Sir Fynwy yn siarad Cymraeg, os yw'r un safonau yn weithredol i'r Cyngor fel awdurdod lle mae 75% o breswylwyr yn rhugl yn y Gymraeg, a chadarnhawyd mai dyna'r sefyllfa.
- Yn nhermau cyhoeddiadau cyhoeddus, a ddylem sicrhau fod ein polisi yn cynnwys yr angen am gyhoeddiad Cymraeg ar gyfer achlysuron penodol.
- Trafodwyd recriwtio staff. Oherwydd bod angen i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan gyswllt, dywedodd aelodau y gall fod angen recriwtio o rannau eraill o Gymru ac ystyried deiliaid swyddi a fyddai'n bennaf yn seiliedig yn eu cartrefi. Gofynnwyd os y gallai gofyniad 'siaradwr Cymraeg' atal ymgeiswyr di-Gymraeg a chytunwyd y dylid trafod hyn gyda Gwasanaethau Pobl i ganfod os oes unrhyw ddata ar hynny **(Gweithredu: Nia Roberts a Pennie Walker)**.
- Gofynnodd aelod o ran gofal cymdeithasol yn wasanaeth rheng-flaen, os oes gan y Cyngor yr alluedd i ddarparu gofal yn y Gymraeg os gofynnir am hynny.
- Gofynnodd aelod arall os bydd y Cyngor yn ceisio darparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor.
- Codwyd mater arwyddion dwyieithog. Dywedodd aelod pa mor anodd y gall fod i bobl sy'n darllen arwyddion ffordd tra'n gyrru, yn arbennig os oes gan unigolyn ddyslecsia ac awgrymodd y gallai arwyddion ffordd yn y dyfodol gynnwys llinell lorweddol rhwng y geiriad Saesneg a'r geiriad Cymraeg i gynorthwyo gyrwyr. **(Gweithredu: Nia Roberts a Pennie Walker i ddilyn Ian ac ystyried yng nghyswllt Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor)**.

Cafodd yr holl gwestiynau eu hateb gan swyddogion ac Aelodau Cabinet a roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r adroddiad, gan ddod i'r casgliad canlynol:

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Aelod Cabinet am fynychu ac ateb cwestiynau aelodau a diolch i'r swyddogion am yr adroddiad, gan nodi eich bod eich dwy yn newydd i'ch swyddi. Mae'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r cynnydd a chafodd yr adroddiad ei gynnig, gyda rhai camau gweithredu i gael eu cyfarch yn dilyn y cyfarfod.

5. Cyfarfod Nesaf: 16eg Gorffennaf, 2024 10.00am.

16 Gorffennaf 2024 at 10.00am

The meeting ended at **4.43 pm**